EISTEDDFOD

| Cyfle i Wirfoddoli | Stiwardio |
|---|---|
| Teitl y rôl wirfoddol | **Stiward**<br>Bydd pob stiward yn gweithio o dan gyfarwyddyd ac arweiniad arolygydd (sy'n stiward profiadol) a fydd yn arwain tîm o stiwardiaid mewn lleoliad penodol. |
| Disgrifiad byr o'r cyfrifoldebau | Sicrhau iechyd a diogelwch pawb sydd ar y Maes.<br>Cynorthwyo ymwelwyr ac ateb ymholiadau amrywiol.<br>Cynorthwyo digwyddiadau ar y Maes i ddigwydd ar amser mewn modd effeithiol a diogel.<br>Rhoi arweiniad cadarn mewn achos o argyfwng – gan ddilyn cyfarwyddyd yr Arolygydd. |
| Lleoliad y gwaith | Maes yr Eisteddfod (ac weithiau lleoliadau cystadlu oddi ar y Maes), a lleoliad Gŵyl y Cyhoeddi ym mis Mai o bosibl. Mae shifftiau ar gael mewn amryw o leoliadau ar y Maes dan arweiniad arolygwyr profiadol, gan gynnwys y Brif Fynedfa, y Pafiliwn, Cymdeithasau, y Babell Lên, y Lle Celf, ac ati. (Noder: ni fydd disgwyl i stiwardiaid weithio ym Maes B nac yn ystod gigs gyda'r hwyr) |
| Cyfnod y gwirfoddoli (gan gynnwys yr ymrwymiad tebygol o ran amser, a chyfnod unrhyw benodiad) | Mae'r stiwardiaid yn gweithio yn ystod wythnos yr Eisteddfod ym mis Awst ac o bosibl yn ystod yr Ŵyl Gyhoeddi ym mis Mai.<br>Gallwch ddewis y shifftiau a'r diwrnodau sy'n addas i chi nhw, a gwneud cynifer neu gyn lleied o oriau ag sy'n eich siwtio.<br>Yn fras iawn, mae'r shifftiau tua 3 awr yr un, ac mae'r un cynharaf yn dechrau tua 07:45 a'r un hwyraf yn gorffen tua 20:00. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar y gofynion ar y pryd. |
| Cyfyngiad o ran oedran | 18+ |
| Hyfforddiant neu adnoddau a gynigir | Mae pecyn gwybodaeth ar gael sy'n esbonio rôl y Stiward yn fwy manwl ac mae sesiynau hyfforddi lleol yn cael eu trefnu.<br>Mae staff yr Eisteddfod a'r Arolygwyr wrth law bob amser i roi cyngor ac arweiniad i chi. |
| Sgiliau/profiad y mae eu hangen | Bydd angen i chi fod yn unigolyn brwdfrydig ac effeithiol sy'n gallu delio â phobl mewn modd cyfeillgar ond pendant.<br>Rhywun sy'n dda gyda phobl ac yn gallu delio gydag agweddau heriol mewn modd rhesymol a |

| | |
|---|---|
| | phwyllog. (Noder: bydd swyddogion diogelwch cyflogedig ar gael i ymdrin ag unrhyw unigolion bygythiol neu afreolus)<br>Rydym yn awyddus i gael ceisiadau gan ddysgwyr/siaradwyr Cymraeg newydd, a siaradwyr Cymraeg llai hyderus. |
| <u>Buddiannau a gynigir</u> | Tocyn mynediad i'r Maes ar ddiwrnod eich shifft.<br>Tocyn bwyd am weithio dwy shifft olynol. |
| <u>Gwybodaeth ychwanegol</u> | Mae'r Eisteddfod yn awyddus i gael ceisiadau gan unigolion nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, e.e. aelodau o'r gymuned LHTDC+ ac aelodau o gymunedau ethnig amrywiol. |
| <u>Sut i wneud cais</u> | Mae'r ffurflen yn fyw o fis Mawrth ymlaen bob blwyddyn: eisteddfod.cymru/stiwardio<br><br>Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl wirfoddol hon cyn gwneud cais, cysylltwch â: Morys Gruffydd, Cydlynydd Gwirfoddoli. |